**ATODIAD B**

## Polisïau Cyfrifydda Newydd

## 1 Cyflwyno Datganiadau Ariannol

Mae'r Datganiad o Gyfrifon wedi cael ei lunio yn unol â'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) ac mae'n cynnwys Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd, Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant (gyda gwybodaeth am wasanaethau ar sail Cod Ymarfer Cyfrifyddu Gwerth Gorau (*BVACOP*)), Mantolen, Datganiad o Lif Arian a Nodiadau i'r Cyfrifon (sy'n cynnwys adrodd segmentol yn seiliedig ar drefniadau rheolaeth ariannol fewnol, ac yn cynnwys dadansoddi a chysoni goddrychol). Yn y Fantolen, adroddir trydedd fantolen fel yr oedd ar 1 Ebrill 2009.

Yn y Datganiad o Gyfrifon Safonau IFRS agoriadol, fel man cychwyn ar gyfer cyfrifydda dan y Safonau IFRS, gwnaed y canlynol:

- Mae'r holl asedau a rhwymedigaethau wedi eu cydnabod,
- Mae'r asedau a'r rhwymedigaethau priodol wedi eu dadgydnabod,
- Ailgategoreiddwyd eitemau a oedd wedi eu cydnabod dan UK GAAP fel un math o ased, rhwymedigaeth neu gyfran o ecwiti, ond maent yn fathau gwahanol dan IFRS,
- Mae'r Cod wedi ei ddefnyddio wrth fesur yr holl asedau a rhwymedigaethau,
- Yn gyffredinol, mae newidiadau wedi eu gwneud am yn ôl, heblaw am rai eithriadau.

Mae segmentau gweithredol yn cael eu diffinio ar yr un sail ag ar gyfer y "prif benderfynwr" a chynhwysir esboniad o'r sail a ddefnyddiwyd ar gyfer yr adrodd segmentol, ynghyd â chysoniad o'r symiau perthnasol yn y Datganiad o Gyfrifon.

## 2 Eiddo, Peiriannau ac Offer

<u>Asedau Gweithredol Anarbenigol a rhai Anweithredol</u>

Mae tir ac adeiladau gweithredol anarbenigol, a rhai anweithredol, yn cael ei dwyn drosodd ar Werth Teg, sydd, fel arfer, yn cael ei bennu gan dystiolaeth yn seiliedig ar y farchnad, a gwerth y farchnad agored a olygir gan hynny fel arfer, ond mae'r Cod yn caniatáu i'r asedau hyn gael eu dwyn drosodd ar y gwerth deunydd presennol.

<u>Asedau o Natur Arbenigol</u>

O ran asedau o natur arbenigol lle nad oes unrhyw dystiolaeth o'r farchnad, mae amcanbris o werth teg wedi ei seilio ar Gost Amnewid Dibrisiedig (*Depreciated Replacement Cost - DRC*), a'r amcanbris yw Ased Cyfwerth Modern (*Modern Equivalent Asset - MEA*) gan ddefnyddio'r dull "adeiladu ar unwaith". Caiff gorsafoedd tân eu cynnwys yn y categori hwn.

<u>Tir ac Adeiladau</u>

Rhoddwyd cyfrif am y tir a'r adeiladau ar wahân, a thybir bod oes y tir yn ddiddiwedd.

<u>Asedau wrthi'n cael eu hadeiladu</u>

Mae asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu wedi cael eu prisio yn ôl cost hanesyddol.

<u>Asedau dros ben</u>

Mae asedau dros ben wedi cael eu prisio yn ôl Gwerth Teg, ac ystyrir mai gwerth ar y farchnad agored yw hynny. Lle nad yw'r ased yn cael ei dal er mwyn cynhyrchu llif arian, y gwerth a ddefnyddir yw Gwerth Presennol (*PV*) y gwasanaeth potensial sy'n weddill gan yr ased, a thybir bod hynny o leiaf yn gyfwerth â chost amnewid y gwasanaeth potensial hwnnw a'i ddefnyddio fel mesur o werth teg.

Os yw'r ased sy'n weddill o natur arbenigol, yna mae'r Gost Amnewid Dibrisiedig wedi cael ei ddefnyddio fel gwerth teg. Mae asedau dros ben wedi cael eu dibrisio, gyda'r dibrisiad yn cael ei ddangos yn erbyn "costau na ddosbarthwyd" yn hytrach na gwasanaeth penodol.

<u>Cyfrifydda Cymwys</u>

Cydran o eiddo, peiriannau ac offer yw eitem sydd â chost sy'n sylweddol mewn perthynas â chyfanswm cost yr ased. Dylai'r cydrannau gael eu dibrisio yn unigol dros eu hoes ddefnyddiol. Fodd bynnag, wrth symud drosodd i'r Cod, nid yw cyfrifydda cymwys ond wedi cael ei ddefnyddio pan fo cydran yn cael ei amnewid neu ei helaethu'n rhannol, a'r hen gydran wedi cael ei ddadgydnabod, ac felly nid oes addasiad i fantolenni 31 Mawrth 2009 neu 31 Mawrth 2010.

<u>Ailbrisio</u>

Pan fo ased yn cael ei ailbrisio, gwnaed cofnod rhwng y Gronfa Ailbrisio a'r Cyfrif Addasu Cyfalaf, sy'n cynrychioli'r gwahaniaeth rhwng dibrisiad yn seiliedig ar gost hanesyddol a'r cyfrif ailbrisiedig.

<u>Colledion Ailbrisio</u>

Bydd colled ailbrisio o ganlyniad o dreuliant clir o fudd economaidd, os oes gweddill ailbrisio blaenorol ar yr ased hwnnw, yn cael ei roi yn y lle cyntaf yn erbyn y gweddill hyd at faint y gweddill, gyda balans y golled yn cael ei roi at y Cyfrif Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

## 3 Amharu ar Asedau

Mae'r asedau'n cael eu cario heb fod dim mwy na'u swm adferadwy, a mesurir yr amhariad trwy gymharu'r gwerth i'w gario gyda'r uchaf o'r gwerth teg tynnu'r costau i werthu (sy'n gyfwerth â phris gwerthu net) a gwerth o ran defnydd. Caiff yr amhariad ei asesu'n flynyddol, ac mae'r dangosyddion i wrthdroi amhariad yr un fath ag ar gyfer asedau diriaethol ac anniriaethol. Mae'r colledion amharu ar asedau ailbrisiedig yn cael eu cydnabod yn y Gronfa Ailbrisio hyd at y swm yn y Gronfa Ailbrisio ar gyfer pob ased unigol.

## 4 Asedau Anniriaethol

Mae asedau anniriaethol a gynhyrchir yn fewnol yn cael eu cyfalafu lle bo'r meini prawf cydnabod yn cael eu cwrdd. Mae'r meini prawf fel a ganlyn: rhaid iddi fod yn bosibl gwahanu'r ased oddi wrth yr endid, rhaid i'r endid reoli'r ased, rhaid bod gan yr ased fudd economaidd yn y dyfodol, rhaid iddi fod yn debygol fod y buddion economaidd yn llifo i'r endid, ac y gellir mesur cost yr ased yn ddibynadwy. Yn y lle cyntaf, bydd yr ased anniriaethol yn cael ei fesur yn ôl cost, caiff pob ailbrisiad ei roi yn y lle cyntaf ar y gronfa ailbrisio, ac nid oes gan yr ased uchafswm o ran oes ddefnyddiol.

## 5 Eiddo Buddsoddi

Caiff Eiddo Buddsoddi ei gario ar werth teg, a gwerth y farchnad agored yw hynny fel arfer. Cymerwyd ailbrisiadau i weddill neu ddiffyg o ran darparu gwasanaethau, nid y Gronfa Ailbrisio, ac nid yw'r eiddo buddsoddi wedi cael ei ddibrisio. Rhoddwyd cyfrif am fuddiant eiddo, sy'n cael ei ddal gan brydlesai dan brydles gweithredu os byddai, fel arall, yn ateb y diffiniad o eiddo buddsoddi. Rhoddwyd cyfrif am y brydles fel prydles ariannu a phennir y gwerth teg.

## 6 Asedau Anghyfredol sydd ar Werth

Mesurir asedau a gategoreiddir yn rhai ar werth yn ôl yr isaf o'r swm i'w gario a gwerth teg (gwerth y farchnad), ac nid ydynt yn agored i ddibrisio. Yn dilyn ail-gategoreiddio asedau ar werth, ni ddylai swm unrhyw enillion ailbrisio wedi hynny fod yn fwy na'r colledion amharu blaenorol. I gael ei chategoreiddio'n un ar werth, rhaid i ased fod yn anweithredol ac ar gael i'w gwerthu ar unwaith yn ei chyflwr presennol, rhaid i'r gwerthiant fod yn debygol iawn, rhaid i'r ased fod yn cael ei marchnata fel un ar werth am bris rhesymol, a rhaid bod disgwyl ei gwerthu o fewn blwyddyn.

## 7 Prydlesau

Categoreiddiwyd a rhoddwyd cyfrif am brydlesau eiddo fel tir ac adeiladau ar wahân. Caiff yr elfen dir ei thrin fel prydles weithredu oni bai fod disgwyl i'r hawl cael ei throsglwyddo i'r prydlesai ar ddiwedd y cyfnod prydlesu. Mae'r Cod yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor roi cyfrif am brydlesau dan Safonau IFRS yn ei fantolen agoriadol fel yr oedd ar 1 Ebrill 2009.

Lle bo prydles weithredu wedi ei hail-gategoreiddio fel prydles ariannu, mae ased a rhwymedigaeth wedi cael eu cydnabod yn gyfwerth â gwerth teg yr ased. Os nad yw'r gwerth teg yn hysbys, amcangyfrifwyd mai gwerth presennol y taliadau prydles lleiaf ydyw.

Aseswyd trefniadau ar gyfer pennu a ydynt yn cynnwys sylwedd prydles. Bu'r asesiad yn ystyried p'un ai yw cyflawni'r trefniant yn ddibynnol ar ddefnyddio ased(au) penodol a ph'un ai yw'r trefniant yn cyfleu'r hawl i ddefnyddio'r ased. Mewn achos o'r fath, cydnabuwyd a rhoddwyd cyfrif am y brydles yn unol â darpariaethau'r brydles.

## 8 Buddion Gweithwyr

Cronnwyd buddion tymor byr fel y'u henillwyd, ac maent yn cynnwys taliadau a chyflogau, balansau cyfadferedig, taliadau bonws, a buddion anariannol yr ystyrir eu bod yn ddyledus o fewn 12 mis wedi'r cyfnod y rhoddwyd y gwasanaeth gan y gweithiwr. Cydnabuwyd gwariant cronedig lle bo ymrwymiad i dalu taliadau, cyflogau a budd-daliadau nawdd cymdeithasol ar ddiwedd y flwyddyn. Rhoddwyd cyfrif am gost yr holl fuddion yn ystod cyflogaeth yn y cyfnod yr enillwyd y buddiant gan y gweithiwr. Y brif effaith fu mewn perthynas â thâl gwyliau a gafodd ei gronni lle bo hynny'n berthnasol.

## 9 Cyrff cysylltiol, Is-gyrff a Mentrau ar y Cyd

<u>Cyrff cysylltiol</u>

Y diffiniad o gorff cysylltiol yw "endid, gan gynnwys endid anghorfforedig megis partneriaeth, y mae gan y buddsoddwr ddylanwad mawr drosto ac sydd heb fod yn is-gorff nac yn fuddgyfranogwr mewn menter ar y cyd". Y diffiniad o ddylanwad mawr yw "y grym i gymryd rhan ym mhenderfyniadau ariannol a pholisi gweithredol y buddsoddai ond heb fod â rheolaeth na chydreolaeth dros y polisïau hynny".

<u>Is-gyrff</u>

Y diffiniad o is-gorff yw "endid, gan gynnwys endid anghorfforedig megis partneriaeth sy'n cael ei reoli gan endid arall (a elwir y rhiant)". Y diffiniad o reolaeth yw "y grym i lywodraethu ar bolisïau gweithredu endid er mwyn cael budd o'i weithgareddau".

<u>Mentrau ar y Cyd</u>

Mae'r diffiniad o fenter ar y cyd yn cynnwys JANEs (Trefniant ar y Cyd heb fod yn Endid - *Joint Arrangement Not an Entity*) a'r math canlynol o fentrau ar y cyd ydynt: endidau a reolir ar y cyd, gweithrediadau a reolir ar y cyd ac asedau a reolir ar y cyd. Y diffiniad o fenter ar y cyd yw "trefniant cytundebol lle bo un neu ddau barti yn ymgymryd â gweithgaredd economaidd sy'n agored i reolaeth ar y cyd".

Mae'r Awdurdod wedi ailasesu perthnasoedd grŵp er mwyn pennu a oes unrhyw un o'r uchod i'w cael o fewn y terfyn, a lle bo angen i gyfuno'r cyrff yn ei gyfrifon grŵp.

## 10 Stocrestrau

Mae stocrestrau wedi eu prisio gan ddefnyddio 'cyntaf i mewn, cyntaf allan' (*FIFO*) neu fformiwlâu cost gyfartalog wedi ei phwysoli. Lle bo telerau taliadau gohiriedig ar gyfer prynu stocrestrau, ystyrir hyn yn drefniant cyllido ac mae'r gwahaniaeth rhwng y pris y byddid wedi ei dalu am delerau credyd "normal" a'r union swm a dalwyd, wedi cael ei gydnabod yn wariant llog dros gyfnod y cyllido.

## 11 Costau Benthyca

Mae opsiwn ar gael i gyfalafu costau benthyca sy’n ymwneud ag asedau cymwys, ond ni ddefnyddiwyd yr opsiwn hwn.

## 12 Rhoi cyfrif am Grantiau’r Llywodraeth

Ni ellir gosod grantiau’r llywodraeth yn erbyn asedau sefydlog, ond mae grantiau’r llywodraeth (a chyfraniadau eraill) yn cael eu cydnabod ar unwaith yn y Cyfrif Incwm a Gwariant Cynhwysfawr lle bo’r amodau angenrheidiol wedi cael eu bodloni. Trosglwyddir yr incwm wedi hynny i’r Cyfrif Addasu Cyfalaf neu’r Cyfrif Grantiau Cyfalaf na Ddefnyddiwyd, gan ddibynnu ar p’un ai y cafodd ei ddefnyddio. Yn ei hanfod, defnyddir Grantiau’r Llywodraeth a ddyfarnwyd ar gyfer cynlluniau cyfalaf fel ffynhonnell arian ar gyfer y rhaglen gyfalaf.

## 13 Camgymeriadau

Mae pob camgymeriad perthnasol wedi ei gywiro am yn ôl. Mae camgymeriadau neu gamddatganiadau’n berthnasol os gallent, boed yn unigol neu ar y cyd, ddylanwadu ar y penderfyniadau economaidd y mae defnyddwyr yn eu gwneud ar sail y datganiadau ariannol. Datgelwyd natur a swm unrhyw newid sydd wedi cael effaith yn y cyfnod cyfredol neu y mae disgwyl iddo gael effaith mewn cyfnodau i ddod (ac eithrio pan fo hynny’n anymarferol).